GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Taflen Wybodaeth i Gleifion

# Profion hormon gwrth mulleraidd (AMH)

## Beth yw prawf hormon gwrth mulleraidd (AMH)?

Mae hormon gwrth-mulleraidd (AMH) yn hormon a gynhyrchir gan y celloedd o gwmpas yr wyau yn eich ofarïau. Mae AMH yn farciwr ar gyfer eich cronfa ofarïaidd; y nifer o wyau sydd gennych ar ôl yn eich ofarïau yw eich "cronfa ofarïaidd". Mae'r prawf AMH neu'r prawf hormon gwrth-mulleraidd yn brawf gwaed labordy sydd ar gael i asesu cronfa ofarïaidd neu gyfrif wyau menyw. Gellir cymryd y prawf AMH unrhyw bryd yn eich cylch mislif gan fod y mesuriad yn parhau'n gymharol sefydlog drwy gydol y cylch hwnnw. Po fwyaf o wyau sydd gennych ar gael, yr uchaf yw maint yr AMH a gynhyrchir. Mae'n bosibl y bydd pennu'r lefel AMH yn ddefnyddiol wrth werthuso statws ffrwythlondeb presennol menyw.

Dylai profion AMH gael eu gwneud pan nad ydych yn cymryd unrhyw baratoadau hormonaidd.

Fel arfer, mae un prawf yn ddigonol, fodd bynnag, efallai y byddwn yn argymell ei ailadrodd os bu oedi hir (dros flwyddyn) ers eich prawf diwethaf. Mae hyn oherwydd bod y lefelau AMH yn newid dros amser.

Mae'r prawf AMH yn un prawf posibl ar gyfer cyfrifo eich cronfa ofarïaidd. Yn aml, bydd arbenigwyr ffrwythlondeb yn defnyddio cyfuniad o brofion ffrwythlondeb er mwyn asesu cronfa ofarïaidd menyw orau, gan gynnwys sgan uwchsain drawsweiniol er mwyn cyfrif nifer y ffoliglau a lefelau hormonau gwaed eraill.

## Beth os oes angen cyngor pellach arnaf?

Siaradwch ag aelod o'r staff clinigol os oes gennych unrhyw gwestiynau am brofion AMH.

## A yw profion AMH ar gael ar y GIG?

Nac ydynt, yn anffodus nid yw'r prawf AMH ar gael am ddim ar y GIG yn BIPAB. Fodd bynnag, mae ar gael fel opsiwn hunan-ariannu drwy drefniant gyda labordy Biocemeg BIPAB ac Ysbyty Athrofaol Cymru am ffi.

## Risgiau neu sgil effeithiau

Mae risgiau bach iawn o gymryd samplau gwaed (cleisio neu anghysur ysgafn).

## Sut i drefnu prawf AMH yn BIPAB?

Caiff AMH ei brofi drwy sampl gwaed (mae angen >1 ml o waed mewn cynhwysydd â chlawr melyn). Gellir cymryd samplau gwaed yn adan fflebotomi'r ysbyty neu drwy eich Meddyg Teulu.

↓

Anfonir y sampl gwaed at labordy Biocemeg BIPAB
(dim ond ar ôl i daliad gael ei wneud y caiff ei brosesu).

↓

Er mwyn gwneud taliad am y prawf AMH, cyfeiriwch at y wybodaeth isod.
Gwybodaeth ynghylch Talu am Brawf AMH i Gleifion.

↓

Caiff y sampl gwaed ei anfon i Ysbyty Athrofaol Cymru lle y caiff y prawf AMH ei brosesu.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English**

## Gwybodaeth ynghylch Talu am Brawf AMH i Gleifion

**Gwefan Gov.uk**
Gellir gwneud taliad ar wefan gov.uk y Bwrdd Iechyd ar ôl i'r sampl gwaed gael ei chymryd.
Y cyfanswm i'w dalu yw £36.00 gan ddefnyddio'r ddolen Sganio:

NEU

**Trosglwyddiad Banc**
Gellir gwneud taliad drwy drosglwyddiad banc ar ôl i'r sampl gwaed gael ei chymryd.

Dylid trosglwyddo'r cyfanswm o £36.00 gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

**Cod Didoli:** 60-70-80

**Rhif Cyfrif:** 10008276

**Enw'r Cyfrif:** ANEURIN BEVAN ULHB

**Cyfeirnod:** AMH PAYMENT ac yna blaenlythrennau'r claf (e.e., Byddai Jane Doe yn defnyddio cyfeirnod AMH PAYMENT JD)

**Taliad dilynol**
Unwaith y gwneir taliad, anfonwch e-bost at y labordy ar abb.dutybiochemist@wales.nhs.uk gan roi 'AMH payment made' fel pwnc yr e-bost. Yn eich e-bost, rhowch eich enw llawn, eich dyddiad geni, eich rhif GIG (os yw ar gael) a dyddiad y sampl gwaed. Os nad y claf yw'r unigolyn sy'n gwneud y taliad, cofiwch gynnwys enw'r unigolyn sy'n gwneud y taliad hefyd.

**Problemau?**
Anfonwch e-bost at bb.dutybiochemist@wales.nhs.uk neu ffoniwch 01633 493263 (Biocemegydd ar Ddyletswydd) os byddwch yn cael unrhyw broblemau â'ch taliad.

**Canlyniadau**
Anfonir samplau i Gaerdydd ar gyfer eu dadansoddi ac fel arfer, bydd canlyniadau eich prawf gwaed ar gael ar ôl pythefnos. Bydd y canlyniadau yn cael eu dychwelyd yn uniongyrchol i'r meddyg a ofynnodd am y prawf. Ni all staff y labordy rhoi'r canlyniadau yn uniongyrchol i gleifion.

**Cyfeiriadau:**

1. Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Fertility problems: assessment and treatment (NG257). Llundain: NICE; 2026.
2. Cymdeithas Ewropeaidd Atgenhedlu Dynol ac Embryoleg (ESHRE). Anti-Müllerian hormone (AMH) testing: taflen wybodaeth i gleifion. ESHRE; 2023.